# Datganiad hunan arfarniad CCG

Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) yn gymdeithas dai a sefydlwyd yn 2010. Amcan CCG yw "*bod yn flaenllaw wrth ddarparu tai o safon - gan gwrdd ag anghenion cwsmeriaid, a pharchu cymunedau.*"

Mae'n cael ei reoleiddio gan Lywodraeth Cymru ac fel rhan o ofynion Llywodraeth Cymru, rhaid i CCG gwblhau hunan arfarniad i werthuso ei berfformiad yn erbyn 10 safon perfformiad. Nod y ddogfen hon yw rhoi crynodeb o statws hunan asesu CCG yn erbyn pob un safon, gan gydnabod meysydd lle cafwyd llwyddiannau a meysydd lle mae angen gwella.

Mae'r Bwrdd Rheoli yn gyfrifol am roi sicrwydd i Lywodraeth Cymru bod CCG yn cwrdd â'r safonau perfformiad a bydd wedi cadarnhau bod y datganiadau sydd wedi'u cynnwys o fewn y crynodeb hwn yn adlewyrchiad cywir o weithgareddau gweithredu CCG cyn ei gyhoeddi ar wefan CCG a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru

## Safon Perfformio 1:

## Bwrdd a rheolwyr gweithredol effeithiol gyda gweledigaeth glir ac uchelgeisiol i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig

Mae CCG wedi amlinellu ei weledigaeth a sut y mae'n bwriadu cyflenwi'r weledigaeth honno o fewn ei Gynllun corfforaethol 2015-2020 'Dylunio'r Dyfodol'. Mae'r cynllun corfforaethol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i baratoi ar gyfer cynllun corfforaethol newydd oherwydd bod y Bwrdd a'r tîm arweinyddiaeth wedi canfod y bydd yr ymrwymiadau o fewn y cynllun corfforaethol newydd yn cael eu gwireddu o flaen amser.

Mae CCG wedi sefydlu system Llywodraethu, sy'n golygu bod trywydd penderfyniadau ac atebolrwydd pendant. Mae CCG yn gweithredu yn unol â 'Rheolau Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyfyngedig'. Mae gan y Bwrdd Rheoli gyfrifoldeb cyffredinol am gyfeiriad strategol CCG sy'n cael ei gyflenwi gan y Prif Weithredwr gyda chymorth y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Mae CCG wedi cyflawni a chadw ardystiad System Rheoli Ansawdd ISO 9001, fel rhan o'i ymrwymiad i gyflwyno ansawdd o fewn ei wasanaethau.

**Barn Llywodraeth Cymru**

Ym mis Rhagfyr 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Ddyfarniad Rheoleiddiol ar CCG, rhoddodd y lefel uchaf posib o sicrwydd, gan ddod i'r casgliadau canlynol:


- **Llywodraethu a Gwasanaethau - Dyfarniad Safonol**

Daeth y rheoleiddiwr i'r casgliad bod CCG yn adnabod risgiau newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg yn briodol.

- **Hyfywedd Ariannol - Dyfarniad Safonol**

Daeth y Rheoleiddiwr i'r casgliad bod CCG yn cwrdd â gofynion hyfywedd ac mae ganddo'r capasiti ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government




**Monitro Perfformiad**

Ymgorffori hunan sicrwydd o ran ansawdd systemau llywodraethu o fewn y sefydliad, mae CCG wedi sefydlu ac yn monitro nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Monitro lefel cydymffurfiad â Rhestr Wirio Cod Llywodraethiant Cartrefi Cymunedol Cymru. Daeth yr adolygiad diweddaraf i'r casgliad bod CCG wedi cwrdd neu wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau mewn 97% o feysydd.
- Monitro presenoldeb aelodau'r Bwrdd. Ar hyn o bryd mae gan CCG ddwy sedd wag ar y Bwrdd
- Monitro dychweliadau i'r rheoleiddiwr a gyflwynwyd o fewn yr amserlen
- ***Monitro nifer yr argymhellion archwilio mewnol sydd wedi'u cwblhau o fewn yr amserlenni, i foddhad yr archwilwyr (gwelir siart crynhoi).***

## Safon Perfformio 2:

## Cynnwys tenantiaid mewn ffordd effeithiol a phriodol a gwasanaethau landlord o safon uchel ac sy'n gwella.


Mae gan CCG bump o werthoedd - bod yn deg, atebol, agored, arloesol a chyfeillgar. Mae CCG o'r farn bod annog tenantiaid i gymryd rhan mewn gwasanaethau yn elfen hanfodol i gyflenwi gwasanaethau priodol.

I gael tenantiaid i gymryd rhan mae CCG wedi sefydlu dulliau gwahanol i gynnwys pobl yng ngweithgareddau CCG Mae'r rhain wedi'u nodi'n fanwl o fewn Fframwaith Cyfranogi CCG

**Arolwg Tenant**

Mae CCG yn gofyn yn rheolaidd i denantiaid am lefel eu boddhad o ran eu profiad gyda CCG. Mae'r wybodaeth hon wedyn yn cael ei ddefnyddio i adnabod meysydd o fewn ein gwasanaeth sydd angen eu gwella o bosib, yn ychwanegol at gael eu hadrodd i'r Rheoleiddiwr. Yn ystod 2017/18 cymerodd dros 1,000 o denantiaid ran yn yr arolwg:

- 80% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn fodlon â lefel ygwasanaeth y maent yn ei dderbyn, gyda 60% yn fodlon iawn
- 81% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn fodlon gydag ansawdd eu cartref, gyda 61% yn fodlon iawn
- 88% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn fodlon bod eu rhent yn darparu gwerth am arian gyda 60% yn fodlon iawn
- 84% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn fodlon eu bod yn derbyn y lefel o wasanaeth y maent yn ei ddisgwyl, gyda 66% yn fodlon iawn
- 85% o ymatebwyr o'r farn bod CCG yn sefydliad dibynadwy, gyda 70% o'r farn bod y sefydliad yn ddibynadwy iawn
- ***80% o'r ymatebwyr yn dweud bod CCG yn gwrando ar eu barn ac yn gwneud rhywbeth amdano (gweler siart)***





**Cynnwys y tenant**

Mae CCG yn annog tenantiaid i gymryd rhan wrth gyflwyno ei wasanaethau, mae rhai gweithgareddau allweddol yn cynnwys:

- mae CCG wedi sefydlu cyfrif facebook, mae ganddo dros 3,000 o ddilynwyr ar hyn o bryd
- mae CCG wedi sefydlu cyfrif Twitter, mae ganddo dros1,700 o ddilynwyr ar hyn o bryd
- Yn 2017/18 ymgysylltodd tîm cyswllt cymunedol CCG gyda 292 o denantiaid, sy'n ychwanegol at y rheini a gysylltodd â CCG ynghylch materion dydd i ddydd.
- Yn unol â'i reolau gweithredu mae gan CCG bedwar aelod tenant ar y bwrdd rheoli. Mae dau o'r seddi hyn yn wag ar hyn bryd, ac i gynorthwyo ymgeiswyr posib mae CCG wedi cynnal Academi Bwrdd y Tenant gyda chwe thenant yn pasio yn 2017/18

## Safon Perfformio 3:

## Asesiad cynhwysfawr o effeithiau risgiau sy'n bodoli eisoes a risgiau newydd ar y busnes, gan gynnwys cyfleoedd busnes a datblygu newydd, gyda threfniadau rheoli risg cadarn


Mae CCG wedi ymrwymo i ddatblygu'r sefydliad i wella'r gwasanaethau y mae'n ei gynnig i denantiaid cyfredol a pharatoi'r sefydliad ar gyfer y dyfodol. I sicrhau bod penderfyniadau yn briodol mae CCG wedi datblygu ac yn gweithredu fframwaith rheoli risg. Mae CCG yn ceisio adnabod risgiau ar y lefel gweithredol a strategol, ac yn rhoi perchnogaeth glir i reoli a monitro'r risgiau hynny. Yn ychwanegol cynhelir asesiad risg ar bob datblygiad a phrosiect newydd ac arfaethedig sy'n cael ei weithredu gan CCG. Mae CCG yn cynnal gwiriad amgylcheddol i adnabod risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg yn y sector yn ychwanegol at yr wybodaeth a ddarperir gan y Rheoleiddiwr.

**Cofrestr Risg**

Mae CCG yn gweithredu fframwaith rheoli risg. Mae'n adnabod y risgiau drwy asesu'n barhaus ei amgylchedd weithredu gan gynnwys y cyngor a dderbyniwyd gan y Rheoleiddiwr. Mae'r Bwrdd yn adolygu cofrestrau risg y sefydliad ar adegau rheolaidd ac mae perchnogion risg clir yn cael eu hadnabod o fewn y sefydliad, mae'r risgiau yn cael eu sgorio ar asesiad 5x5, yn asesu effaith a thebygolrwydd.

Mae CCG yn paratoi at effaith posib diwygio lles ar denantiaid. Mae prosiect dynodedig wedi'i sefydlu i sicrhau bod CCG wedi paratoi ar gyfer cyflwyno'r newidiadau ac y gall gefnogi tenantiaid a gwarchod sefyllfa ariannol y sefydliad Ar hyn o bryd y risg uchaf sy'n cael ei adnabod gan CCG yw diwygio lles.

**Diwigio lles/welfare reform**




## Safon Perfformio 4:

## Hunanwerthusiad a datganiad o gydymffurfiaeth wedi'u hategu â thystiolaeth glir

Wrth gynhyrchu'r Datganiad Blynyddol o Gydymffurfiaeth mae CCG yn paratoi datganiad hunan-arfarniad manwl yn erbyn pob safon perfformiad. Disgwylir i'r datganiadau hyn roi tystiolaeth i gefnogi asesiad y sefydliad o'i berfformiad ei hun. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn craffu'r datganiadau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n ddigonol ac yn rhoi cyfrif gonest am sefyllfa'r sefydliad ac mae'r rhain yn cael eu craffu ymhellach cyn i'r Bwrdd gymeradwyo y datganiad terfynol o Gydymffurfiaeth Flynyddol.

## Safon Perfformio 5:

## Hanes o sicrhau canlyniadau cadarnhaol, gan ymateb yn briodol i heriau newydd a phroblemau o ran perfformiad


Mae gan CCG fframwaith rheoli perfformiad sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau a gweledigaeth sydd wedi'i sefydlu o fewn y cynllun corfforaethol. Mae pob blaenoriaeth wedi'i gysylltu â dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) sy'n cael eu monitro yn rheolaidd gan y Bwrdd ac aelodau o'r timau rheoli Arweinyddiaeth a'r Uwch Dim Arweinyddiaeth. Ar y cyd gyda gweithgareddau eraill gan gynnwys rheoli risg (gweler safon perfformiad 3) mae'r gwaith hwn yn galluogi'r sefydliad i adnabod cyfleoedd a heriau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio a neu fwyhau perfformiad.

Roedd gwireddu gweledigaeth CCG yn ganolog i lwyddiant CCG wrth ymgymryd â'r gwelliannau i'w stoc dai a oedd yn ofynnol gan y Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), mae CCG wedi cadw at gydymffurfiad llawn gyda SATC.

Canolbwyntir fwyfwy ar fesur canlyniadau i denantiaid, a'u boddhad gyda'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn (gweler arolwg tenantiaid o dan safon perfformiad 2)

**Astudiaeth Achos - Tîm Trwsio**

Canfu CCG ei fod eisiau gwella'n sylweddol y gallu a'r capasiti o fewn tîm trwsio, adran trwsio, cynnal a chadw'r sefydliad. Sefydlodd ddangosyddion perfformio a thargedau heriol, i fonitro barn tenantiaid a data sefydliadol a ddefnyddir i reoli perfformiad.




- 96% o denantiaid yn dweud eu bod yn mynychu apwyntiad ar amser i gwblhau'r atgyweiriad, 99% yn dweud eu bod yn gyfeillgar a phroffesiynol, 94% yn dweud bod ansawdd y gwaith yn dda a 98% yn dweud eu bod wedi gadael yr eiddo yn lân a thaclus ar ôl cwblhau'r gwaith.
- Ers 2014/15 mae nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â thrwsio wedi gostwng o 152 i 112 yn 2017/ 18.
- **Mae'r siart yn dangos un o'r dangosyddion perfformiad cysylltiol ar gyfer tîm trwsio, cyfanswm y gwaith trwsio ymatebol a gwblhawyd ar sail cywir tro cyntaf.** Mae'r DP hwn yn bwysig oherwydd ei fod yn galluogi'r sefydliad i weld bod gan y gwasanaeth yr wybodaeth berthnasol y mae ei angen i ymateb a datrys materion yn briodol i'r tenant. Yn 2015 roedd 78% o'r atgyweiriadau yn cael eu cwblhau ar sail cywir tro cyntaf gyda pherfformiad diweddar uwchlaw 90%

## Safon Perfformio 6:

## Sicrhau gwerth am arian ym mhob un o feysydd y busnes

Mae cynllun corfforaethol CCG yn cael ei ategu gan chwe egwyddor, sy'n cynnwys 'gwerth am arian'; mae'n datgan "byddwn yn darparu gwasanaethau sy'n rhoi gwerth am arian ac adolygu sut 'rydym yn gwneud pethau i sicrhau bod ein gwasanaethau yn gwella i gwrdd â gofynion ein cwsmer." Ers 2015 mae CCG wedi gweithredu Strategaeth Gwerth am Arian, sy'n egluro'r modd y mae CCG yn meincnodi, yn monitro perfformiad, yn caffael ac yn newid diwylliant o ran Gwerth am Arian. Yn 2017/18 cynhaliwyd archwiliad strategol ar werth am arian, a rhoddwyd sicrwydd ar weithgareddau CCG yn ychwanegol at argymhellion i gefnogi cryfhau'r maes gweithredu hanfodol hwn.

Mae'r Bwrdd gyda'r Pwyllgorau Cwsmeriaid ac Asedau a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn monitor rhaglen wariant CCG, ac yn monitro sawl DPA sy'n gysylltiedig.

Mae CCG yn paratoi Datganiad Ariannol Blynyddol sy'n cael ei archwilio'n annibynnol ac yn cael ei gyflwyno i'r rheoleiddiwr.

**Effeithiolrwydd**

Mae CCG wedi datblygu prosesau i wella sut y mae’r sefydliad yn cynnal ei fusnes, fel rhan o weithredu’r Strategaeth Gwerth am Arian. Bwriad yr arbedion effeithiolrwydd yw gwella cyflenwi busnes a lle’n bosibl sicrhau arbedion ariannol y gellir eu hail fuddsoddi yn y busnes.

Rhan o gyflenwi effeithiolrwydd sefydliadol yw mwyhau gallu caffael. Mae CCG wedi derbyn cydnabyddiaeth uchel yn y maes hwn; yng Ngwobrau Rhagoriaeth yn y maes caffael cyhoeddus Cymru a’r DU roedd ar y rhestr fer mewn sawl categori gan gynnwys Gwobr am ddangos arweinyddiaeth yn y maes caffael, a derbyn clod uchel yng ngwobr Arweinyddiaeth, a hefyd y wobr am Arloesi neu Fenter y flwyddyn.

I adnabod a gwireddu arbedion effeithiolrwydd posib pellach, mae gan CCG dîm prosiect, sy’n ymgymryd â mentrau trawsnewid busnes yn rheolaidd, gweithio ochr yn ochr â gwasanaethau i adnabod gwelliannau posib y gellir eu gwneud, mae hyn yn cyd redeg â’r rhaglen prosiectau corfforaethol sy’n rheoli prosiectau i fynd i i’r afael â newid busnes ar raddfa fwy.

88% o denantiaid a gymerodd ran yn yr arolwg yn 217/18 yn dweud eu bod yn fodlon bod eu rhent yn rhoi gwerth am arian, gyda 72% yn fodlon iawn.




## Safon Perfformio 7:

## Cydymffurfiaeth â gofynion a chanllawiau rheoleiddio a statudol


Mae CCG yn amlinellu ei fwriad i fod yn brif ddarparwr tai o ansawdd. Mae’n ceisio cydymffurfio â'r safonau statudol fel isafswm, ac o ganlyniad yn monitro cyfres o DPA sy’n ymwneud yn benodol â sicrhau diogelwch ac ansawdd y stoc dai, yn ychwanegol at sicrhau diogelwch tenantiaid, staff ac aelodau o’r cyhoedd.

Mae adroddiadau rheolaidd ar gydymffurfiaeth yn cael eu darparu i’r Bwrdd yn ogystal â’r timau arweinyddiaeth i gydnabod pwysigrwydd y maes hwn o’r busnes. Mae CCG hefyd yn ymgymryd ag archwiliadau cydymffurfio rheolaidd i sicrhau dilysrwydd ac uniondeb y gweithgareddau yr ymgymerir â hwy, ac wedi comisiynu arbenigwyr yn y diwydiant i gynnal adolygiad manwl o weithgareddau yn ymwneud â chydymffurfiad diogelwch yn 2018 i sicrhau bod dysgu o feysydd eraill yn cael ei ymgorffori yng ngweithrediadau CCG yn ychwanegol at sicrhau bod ein perfformiad yn y maes hwn o’r safon uchaf.

**Cydymffurfiad ag iechyd, diogelwch, ansawdd a'r amgylchedd (IDAA)**

Mae gan CCG dîm IDAA dynodedig, sy'n monitro'n barhaus cydymffurfiad yn erbyn gofynion statudol.

Mae CCG wedi cadw ei gydymffurfiad 100% gyda gofynion i gynnal Asesiadau Risg Tan, archwiliadau clefyd y lleng filwyr, ac archwiliadau asbestos. Mae cydymffurfiad yn y meysydd hyn yn cael ei fonitro drwy ddangosyddion perfformiad allweddol gyda'r rheoleiddiwr yn eu goruchwylio. Mae'r siart yn dangos perfformiad CCG o ran sicrhau bod gan bob eiddo dystysgrif gwresogi dilys.




## Safon Perfformio 8:


## Cynllun ariannol sy'n cyflawni'r cynllun busnes ac yn ei gefnogi a threfniadau i fonitro perfformiad ariannol yn effeithiol

Mae gan CCG gynllun busnes 30 mlynedd sy'n cael ei ddarparu i'r rheoleiddiwr fel sicrwydd o gynaladwyedd, yn ychwanegol mae CCG yn gosod Cynllun Ariannol Tymor Canolig i roi arweiniad o ran cynhyrchu cynllun busnes blynyddol, sydd hefyd yn cael ei rannu â'r rheoleiddiwr. Mae gan CCG Strategaeth Rheolaeth Trysorlys (gweler safon perfformiad 9).

Mae'r Bwrdd gyda'r timau arweinyddiaeth yn asesu hyfywedd cynllunio ariannol CCG, mae rhan o'r broses hon yn cynnwys 'profi straen' y cynllun busnes i sicrhau ei fod yn ddigon cadarn i gwrdd â newid dramatig yn y rhagdybiaethau cynllunio sydd wedi'u cytuno a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynllun busnes.

**Rheoli'r cynllun busnes**

Mae CCG yn rheoli ac yn monitro perfformiad yn erbyn y cynllun busnes trwy'r bwrdd, pwyllgorau perthnasol ac uwch dimau rheoli. Mae cyfres o DPA ar waith i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun gan gynnwys gwariant cyfalaf a refeniw.



## Safon Perfformio 9:

## Rheoli gweithrediadau trysorlys yn effeithiol gan sicrhau digon o hylifedd bob amser

Mae gan CCG Strategaeth Rheolaeth Trysorlys sy'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol; mae'r Polisi Rheolaeth Trysorlys yn rhoi arweiniad iddo. Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd â'r cynllun busnes (gweler safon perfformiad 8). Mae gan CCG archwilwyr mewnol ac allanol sy'n adolygu trefniadau cyfrifyddu ar adegau rheolaidd, mae aelodau'r bwrdd ac uwch reolwyr hefyd yn ei fonitro.

**Rheolaeth Trysorlys**

Mae CCG yn rheoli ac yn monitro perfformiad yn erbyn Strategaeth Rheolaeth Trysorlys drwy gyfrwng y bwrdd, pwyllgorau perthnasol a thimau uwch reoli. Mae trefniadau ar waith i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun gan gynnwys cydymffurfiad â chyfamodau benthyca a hylifedd y sefydliad. Profir straen y cynllun busnes yn rheolaidd i sicrhau bod modd i CCG ymdopi â'r newidiadau i ragdybiaethau cynllunio, ac y gall ymateb a newid y lefel o asedau hylifol y mae'n ei ddymuno I gwrdd â'i rwymedigaethau fel sefydliad.

## Safon Perfformio 10:

## Dealltwriaeth glir o rwymedigaethau a pherfformiad asedau

Fel rhan o brosesau rheoli ariannol CCG mae perfformiad ei asedau a rhwymedigaethau yn cael eu hadolygu yn rheolaidd. Mae hyn yn ffurfio rhan o'r cynllunio i hysbysu'r Cynllun Busnes, Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Busnes 30-mlynedd (gweler safonau perfformiad 8 a 9). Mae CCG yn defnyddio'r Model Perfformiad Ased i sicrhau bod asedau a rhwymedigaethau yn cael eu hadnabod yn eglur.

**Rheoli Asedau**

Mae gan CCG Strategaeth Rheoli Asedau ar gyfer parhad rheolaeth stoc dai ac asedau eraill. Mae'r rhaglen yn ystyried y gwaith sy'n cael eu rhagweld naill ai i gynnal safonau statudol neu i wella'r ased, fel gwella effeithiolrwydd ynni SAP. Mae pob eiddo yn cael ei asesu gan ddefnyddio matrics i adolygu ei gynaladwyedd a lefel y galw am dai yn yr ardal.

Mae gan CCG dîm arolygu, sy'n ceisio sicrhau bod pob ased yn derbyn arolwg cyflwr stoc bob pum mlynedd, yn ychwanegol mae'r arolygwyr yn cynnal archwiliad dilysu cydymffurfiad SATC i sicrhau bod gwybodaeth yn gyfredol ac yn gywir.



## *System sgorio hunan asesu*

Mae CCG yn defnyddio' system sgorio ganlynol i asesu ei hunan yn erbyn y safonau perfformiad:

| Sgôr | Beth mae hyn yn ei olygu? |
|---|---|
|  | Rydym ni'n gwneud yn dda, ond angen i'r gwaith barhau |
|  | Rydym ni'n gwneud yn dda, ond gallwn wella eto |
|  | Rydym ni'n gwneud yn iawn, ond rydym yn gwybod bod angen gwella |
|  | Rydym ni'n gwneud yn iawn, ond rydym angen rhoi cynlluniau ar waith er mwyn gwella |
|  | Mae angen gwella, ond rydym yn gwybod sut i wneud hyn |
|  | Mae angen gwella ac rydym eisiau deall beth sydd angen ei wneud |